Chwefror 2023

# Termau Hil ac Ethnigrwydd

*Rhestr o dermau dethol gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Terminoleg o ran Cydraddoldeb ym maes Hil ac Ethnigrwydd, a sefydlwyd gan Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, gyda nodiadau defnydd ar gyfer trafod maes Hil ac Ethnigrwydd yn Gymraeg.*

| ***Term Saesneg*** | ***Acronym*** | ***Term Cymraeg*** | ***Diffiniad*** | ***Nodyn defnydd*** |
|---|---|---|---|---|
| **antiracist** | | **gwrth-hiliol** | | |
| **Black / white** | | **Du / gwyn** | Fel disgrifiad o bobl, mae 'Du' gan amlaf yn cyfeirio at hunaniaeth sy'n tarddu'n wreiddiol neu'n rhannol o Affrica islaw'r Sahara. Gall fod ag elfennau diwylliannol yn perthyn iddo, ac felly nid yw'n cyferbynnu bob tro â 'gwyn' lle nad oes yr un ymdeimlad o berthyn i hunaniaeth arbennig. | Hyd y bo modd, defnyddiwch briflythyren gyda'r gair 'Du' wrth gyfeirio at bobl, a dim priflythyren gyda 'gwyn' mewn cyd-destunau tebyg. Yr unig eithriad yw lle mae angen cysondeb rhwng dwy ddogfen yn y ddwy iaith a bod yn rhaid i'r cyfieithiad ddilyn arddull y gwreiddiol.<br><br>PEIDIWCH â defnyddio ansoddeiriau lliw yn enwol (h.y. yn lle enwau) wrth gyfeirio at grwpiau o bobl e.e. 'y Duon' / 'y gwynion'.<br><br>PEIDIWCH â defnyddio ffurfiau lluosog yr ansoddeiriau 'du' a 'gwyn' wrth gyfeirio at bobl (h.y. 'pobl Ddu' nid 'pobl Dduon', a 'pobl wyn' nid 'pobl wynion').<br><br>Mewn rhai ymadroddion, e.e. 'bywydau Duon' gallai ymddangos fel petai 'Duon' yn enwol yn hytrach nag yn ansoddeiriol a gwell osgoi hynny, fel y nodir uchod. |



cymraeg2050@llyw.cymru

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| **Black, Asian and minority ethnic** | **BAME** | **Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol** | Pobl sy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol arall | Peidiwch â defnyddio'r term na'r acronym Saesneg '*BAME*' os oes modd ei osgoi, gan ei fod yn tramgwyddo rhai pobl y mae'n ceisio'i ddisgrifio, drwy grwpio a chyffredinoli a phwysleisio rhai grwpiau gan eithrio eraill. Caiff ei gynnwys yma yn unig er mwyn rhoi arweiniad i'r rhai sydd yn gorfod ei drosi i'r Gymraeg.<br><br>Defnyddiwch y term Cymraeg llawn yn unig os oes angen cyfateb i'r Saesneg '*BAME*'. O ddewis, disgrifiwch pobl yn ôl eu cymuned ethnig unigol, nid yn ôl lliw croen na chategorïau gorgyffredinol. Os oes rhaid cyffredinoli, defnyddiwch ymadrodd fel 'cymunedau ethnig amrywiol' ('*diverse ethnic communities*') neu 'mwyafrif byd-eang' ('*global majority'*). |
| **Blackness** | | **Duder** | Term cadarnhaol sy'n diffinio'r nodwedd o fod â chroen lliw tywyll a'r diwylliannau a all fod yn gysylltiedig â hynny, yn enwedig yn Unol Daleithiau America. | Defnyddiwch briflythyren lle bo modd i adlewyrchu dimensiwn diwylliannol y disgrifiad hwn o bobl. Yr unig eithriad yw lle bo angen cysondeb rhwng dwy ddogfen yn y ddwy iaith a bod yn rhaid i'r cyfieithiad ddilyn arddull y gwreiddiol. |
| **colourism** | | **lliwiaeth** | Rhagfarn o fewn neu ar draws grwpiau ethnig yn seiliedig ar ba mor dywyll yw lliw croen rhywun. | |



cymraeg2050@llyw.cymru

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| **ethnic community**<br><br>**(plural: ethnic communities)** | | **cymuned ethnig**<br><br>**(lluosog: cymunedau ethnig)** | Uned gymdeithasol sy'n rhannu hunaniaeth ar sail nodweddion fel tarddiad, iaith, hanes, traddodiadau, crefydd, neu ddiwylliant cyffredin. Cymerir weithiau fod y termau 'grŵp ethnig' a 'cymuned ethnig' yn gyfystyron, ond mae'r ymdeimlad o berthyn yn gryfach wrth ddefnyddio 'cymuned', gyda'r defnydd o 'grŵp' yn fwy amlwg wrth gasglu ystadegau Llywodraeth. | |
| **ethnic group**<br><br>**(plural: ethnic groups)** | | **grŵp ethnig**<br><br>**(lluosog: grwpiau ethnig)** | Categori o bobl sy'n rhannu hunaniaeth ar sail nodweddion fel tarddiad neu ddiwylliant cyffredin. Ar gyfer casglu data yng nghyfrifiad y boblogaeth, y dosbarthiad a ddefnyddir ar gyfer grwpiau ethnig yw Asiaidd, Du, Cymysg, Gwyn ac Arall, gydag isgategorïau yn y rhain i gyd. | |



cymraeg2050@llyw.cymru

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| **global majority** | | **mwyafrif byd-eang** | Disgrifiad cadarnhaol o bobl Ddu, Affricanaidd, Asiaidd, Brown, o etifeddiaeth ddeuol, brodorol i'r de byd-eang, a / neu sydd wedi cael eu hileiddio fel 'lleiafrifoedd ethnig'. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys tua 80% o boblogaeth y byd. | |
| **intersectionality** | | **croestoriadedd** | Y ffordd y mae gwahanol agweddau o hunaniaeth person, e.e. ethnigrwydd, dosbarth, rhyw, rhywedd ac anabledd, yn gweithio gyda'i gilydd a hynny'n aml yn atgyfnerthu anghyfartaledd. Yr Athro Kimberlé Crenshaw oedd y gyntaf i ddefnyddio'r term yng nghyd-destun camwahaniaethu. | |
| **macroaggression** | | **macroymosodiad**<br><br>***(enw rhif / count noun)***<br><br>**macroymosodedd** ***(enw cynnull / mass noun)*** | Sylwadau neu weithredoedd rhagfarnllyd a negyddol, wedi'u cyfeirio at aelodau o gymunedau lleiafrifol neu sydd wedi'u hymyleiddio, ac sy'n niweidiol i'r bobl hynny. | |



cymraeg2050@llyw.cymru

| ***Term Saesneg*** | ***Acronym*** | ***Term Cymraeg*** | ***Diffiniad*** | ***Nodyn defnydd*** |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gall ddigwydd ar lefel strwythurol gyda'r bwriad o dargedu ac eithrio'r bobl hynny. Ar eu pennau'u hunain gall ymosodiadau fel hyn ymddangos yn bethau bach, ond gyda'i gilydd mae eu heffaith yn cynyddu ac yn gwaethygu. | |
| **macroaggressive** | | **macroymosodol** | | |
| **microagression** | | **microymosodiad** ***(enw rhif / count noun)*** <br><br> **microymosodedd** ***(enw cynnull / mass noun)*** | Sylwadau neu weithredoedd bach rhagfarnllyd a negyddol, wedi'u cyfeirio at aelodau o gymunedau lleiafrifol neu sydd wedi'u hymyleiddio. Gall sylwadau neu weithredoedd o'r fath beri loes neu frifo unigolion, hyd yn oed os na fwriadwyd hwy felly. | |
| **microaggressive** | | **microymosodol** | | |
| **minority community** | | **cymuned leiafrifol** | Unrhyw gymuned nad yw'n rhan o gymuned | |

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| **(plural: minority communities)** | | **(lluosog: cymunedau lleiafrifol)** | fwyafrifol y diriogaeth neu'r ardal dan sylw. | |
| **minority ethnic community**<br><br>**(plural: minority ethnic communities)** | | **cymuned ethnig leiafrifol**<br><br>**(lluosog: cymunedau ethnig lleiafrifol)** | Cymuned o bobl sy'n perthyn i leiafrif ethnig o fewn y diriogaeth neu'r ardal dan sylw. | Weithiau defnyddir y term '*ethnic minority community*' yn Saesneg ond argymhellir defnyddio'r un drefn geiriau i gyfieithu'r ddau derm yn Gymraeg. |
| **minority ethnic group**<br><br>**(plural: minority ethnic groups)** | | **grŵp ethnig lleiafrifol**<br><br>**(lluosog: grwpiau ethnig lleiafrifol)** | Grŵp o bobl sy'n perthyn i leiafrif ethnig o fewn y diriogaeth neu'r ardal dan sylw. | Weithiau defnyddir y term '*ethnic minority group*' yn Saesneg ond argymhellir defnyddio'r un drefn geiriau i gyfieithu'r ddau derm yn Gymraeg. |
| **minority group**<br><br>**(plural: minority groups)** | | **grŵp lleiafrifol**<br><br>**(lluosog: grwpiau lleiafrifol)** | Unrhyw grŵp o bobl nad yw'n perthyn i'r mwyafrif mewn sefyllfa arbennig. Erbyn hyn mae symudiad i ffwrdd o ddisgrifio grwpiau fel 'lleiafrifol' am ei fod yn cael ei weld yn bychanu'r grwpiau hynny. [Gweler hefyd '*minority community*' a '*minority ethnic community*']. | |

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| **non-BAME** | | **pobl nad ydyn nhw'n perthyn i grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol** | Pobl nad ydyn nhw'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol arall. | Gweler y nodyn defnydd am '*BAME*'.<br><br>Mewn cywair ffurfiol iawn, mae modd dweud 'pobl nad ydynt yn perthyn i grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol'.<br><br>Mewn cywair mwy anffurfiol, mae modd dweud 'pobl sydd ddim yn perthyn i grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol'. |
| **person of colour**<br><br>**(plural: people of colour)** | | **person o liw**<br><br>**(<u>lluosog</u>: pobl o liw)** | Pobl sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig ar wahân i rai sy'n cael eu hystyried yn 'wyn'. | Lle bo'n bosibl, gwell peidio defnyddio termau sy'n cyfeirio at liw croen pobl eraill.<br><br>Defnyddiwch 'pobl o liw' yn unig os oes angen cyfieithu '*people of colour*' o'r Saesneg. Defnyddiwch dermau sy'n cyfeirio at ethnigrwydd yn hytrach nag at liw croen os oes modd.<br><br>PEIDIWCH â defnyddio 'croenliw', 'croenddu', 'croenwyn' fel termau gan eu bod yn gorbwysleisio lliw croen. |
| **race** | | **hil** | Un o israniadau tybiedig y ddynoliaeth ar sail nodweddion corfforol neu dras cyffredin. Mae'r cysyniad o 'hil' yn un problemus a derbynnir ei fod yn gyfluniad cymdeithasol yn hytrach | Mae derbynioldeb y term hwn yn dibynnu llawer ar y cyd-destun, ond pan nad oes raid cyfieithu '*race*' yn uniongyrchol, gall fod yn fwy cadarnhaol defnyddio termau fel 'pobl', 'cymuned' a 'grŵp ethnig' yn hytrach na 'hil'. |



cymraeg2050@llyw.cymru

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| | | | nag yn gategori corfforol / biolegol gwrthrychol. | |
| **racial** | | **ar sail hil** | | Os nad yw 'ar sail hil' yn gweithio mewn cyd-destun arbennig, weithiau mae modd defnyddio 'hil' yn ansoddeiriol, e.e. 'gwahaniaethu ar sail hil' ('*racial discrimination*') ond 'strategaeth hil' ('*racial strategy*').<br><br>PEIDIWCH â defnyddio 'hiliol' gan fod y term hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gyfateb i '*racist*'. |
| **racist / racialist** | | **Ansoddair: hiliol**<br><br>**Enw: person hiliol**<br><br>**(lluosog: pobl hiliol)** | Fel ansoddair: yn dangos rhagfarn a gelyniaeth tuag at bobl o gefndir ethnig gwahanol, yn enwedig rhai lleiafrifol ac sydd wedi cael eu herlid yn hanesyddol.<br><br>Fel enw: person sy'n dangos y nodweddion uchod. | Weithiau mae'n werth ystyried aralleirio'r gwreiddiol ac mae 'bod yn hiliol' yn ddewis amgen defnyddiol. |
| **white privilege** | | **braint pobl wyn** | Manteision annheg sydd gan bobl wyn mewn cymdeithas wedi'u nodweddu gan annhegwch ac anghydraddoldeb ar sail lliw croen ac ethnigrwydd. | Defnyddiwch 'pobl' yn yr ymadrodd er mwyn eglurder.<br><br>PEIDIWCH â defnyddio 'braint y dyn gwyn' gan fod y defnydd o 'dyn' yn aneglur yma. |



cymraeg2050@llyw.cymru

| *Term Saesneg* | *Acronym* | *Term Cymraeg* | *Diffiniad* | *Nodyn defnydd* |
|---|---|---|---|---|
| **white silence** | | **distawrwydd pobl wyn** | Methiant pobl wyn i godi eu llais yn erbyn annhegwch ac anghydraddoldeb ar sail lliw croen ac ethnigrwydd. | Defnyddiwch 'pobl' yn yr ymadrodd er mwyn eglurder. |
| **white tears** | | **dagrau pobl wyn** | Tuedd gan rai pobl wyn tuag at hunandosturi mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n teimlo eu bod yn cael cam a bod pobl o gefndiroedd ethnig eraill yn cael mantais annheg, neu lle maen nhw'n ceisio troi'r cydymdeimlad atyn nhw'u hunain yn hytrach nag at y person o liw neu gefndir ethnig gwahanol sydd wedi dioddef y cam mewn gwirionedd. | |
| **whiteness** | | **gwynder** | Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio weithiau i gyferbynnu â 'Duder' fel nodwedd yn disgrifio lliw croen, ond nid oes diwylliant penodol yn perthyn iddo. | PEIDIWCH â defnyddio priflythyren ar ddechrau 'gwynder' gan nad oes dimensiwn diwylliannol iddo. Yr unig eithriad yw lle bo angen cysondeb rhwng dwy ddogfen yn y ddwy iaith a bod yn rhaid i'r cyfieithiad ddilyn arddull y gwreiddiol. |



cymraeg2050@llyw.cymru